# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 27 Medi 2016

Amser y cyfarfod: 13.30

## 19(v4)

## 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

(30 munud)

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

## 3 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg: Adolygiad Diamond o Addysg Uwch a Chyllid Myfyrwyr yng Nghymru

(60 munud)

## 4 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon: Sefydlu'r Gronfa Triniaethau Newydd a'r Adolygiad Annibynnol o'r Broses Ceisiadau Cyllido Cleifion Unigol

(45 munud)

## 5 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith: Croesawu'n ôl Athletwyr Gemau Olympaidd a Pharalympaidd Rio 2016

(30 munud)

## 6 Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Plismona a Throsedd

(15 munud)

**NDM6098** Rebecca Evans (Gŵyr)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried y darpariaethau yn y Bil Plismona a Throsedd sy'n diwygio Deddf Iechyd Meddwl 1983 a Deddf Troseddau Rhywiol 2003, i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn y Swyddfa Gyflwyno ar 22 Mehefin 2016 yn unol â Rheol Sefydlog 29.2(i) a (iii).

'Bil Plismona a Throsedd'

**Dogfennau Ategol**

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol

Adroddiad y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Plismona a Throsedd

## 7 Dadl: Siarter Ddrafft y BBC

(60 munud)

**NDM6097** Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi bod Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi Siarter Frenhinol ddrafft y BBC a Chytundeb Fframwaith drafft y BBC.

'Siarter Frenhinol ddrafft y BBC a Chytundeb drafft y BBC'

**Dogfen Atodol**

'Datganiad Ysgrifenedig gan Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes – Adolygu Siarter y BBC'

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1.** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi'r cyfeiriadau cadarnhaol at S4C yng Nghytundeb Fframwaith Drafft y BBC ac yn enwedig y cyfeiriad at y nod a gaiff ei rannu rhwng S4C a'r BBC o gydweithio i gydnabod ac amddiffyn eu hannibyniaeth.

**Gwelliant 2.** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth y DU i sicrhau bod yr adolygiad arfaethedig o gylch gwaith a chyllid S4C, a ddisgwylir yn 2017, yn ystyried lefel y cyllid, a'r dull mwyaf priodol o gyllido S4C yn yr hirdymor i amddiffyn ei hannibyniaeth a sicrhau y gall gynhyrchu rhaglenni o ansawdd uchel i gynulleidfaoedd Cymru am flynyddoedd i ddod.

**Gwelliant 3.** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi, â phryder, y goblygiadau i BBC Cymru o ran peidio â newid ffi'r drwydded.

**Gwelliant 4.** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar y BBC i sicrhau y caiff adnoddau eu dyrannu i anrhydeddu'r ymrwymiadau a wnaed yn Siarter Frenhinol Ddrafft y BBC i gynulleidfaoedd yng Nghymru, gan gynnwys:

(a) bod y BBC yn adlewyrchu ac yn cynrychioli cymunedau amrywiol y DU, a'i bod yn codi ymwybyddiaeth o'r gwahanol ddiwylliannau a safbwyntiau yn ei chymdeithas;

(b) bod yn rhaid i'r BBC gefnogi ieithoedd rhanbarthol a lleiafrifoedd y DU, a pharhau i gefnogi rhaglenni a gynhyrchir yn Gymraeg; ac

(c) bod safbwyntiau a diddordebau gwahanol y cyhoedd a chynulleidfaoedd ledled y DU yn cael eu hystyried wrth i'r BBC wneud penderfyniadau.

**Gwelliant 5.** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth y DU i sicrhau y bydd unrhyw reoleiddiwr y BBC yn y dyfodol hefyd yn atebol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

## 8 Cyfnod pleidleisio

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 28 Medi 2016

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 22 Medi 2016 i'w hateb ar 27 Medi 2016

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl cwestiwn 2.

## Gofyn i Brif Weinidog Cymru

1. Leanne Wood (Rhondda): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am hyrwyddo'r Gymraeg? OAQ(5)0161(FM)

2. Vikki Howells (Cwm Cynon): Beth yw blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer codi nifer y twristiaid sy'n ymweld â Chymru? OAQ(5)0156(FM)

3. Huw Irranca-Davies (Ogwr): Pa asesiad y mae'r Prif Weinidog wedi'i wneud o rôl gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd a gofal cymdeithasol o ran cyflawni blaenoriaethau Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â hybu iechyd a llesiant gydol oes? OAQ(5)0160(FM)

4. Suzy Davies (Gorllewin De Cymru): A wnaiff y Prif Weinidog nodi cam nesaf cynllun rhyddhad ardrethi busnesau bach Llywodraeth Cymru? OAQ(5)0158(FM)

5. Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru): Pa gefnogaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei darparu i Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg yn dilyn y penderfyniad i godi ei statws i 'ymyrraeth wedi'i thargedu'? OAQ(5)0169(FM)

6. Caroline Jones (Gorllewin De Cymru) A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu sut y mae Llywodraeth Cymru yn helpu'r GIG i baratoi at y gaeaf sydd o'n blaenau? OAQ(5)0162(FM)

7. Janet Finch-Saunders (Aberconwy): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddarparu gofal yn y gymuned? OAQ(5)0166(FM)
**TYNNWYD YN OL**

8. Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am brinder meddygon yng Ngogledd Cymru? OAQ(5)0164(FM)**W**

9. Mohammad Asghar (Dwyrain De Cymru): Pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru i wella gwasanaethau iechyd meddwl yn ystod y Pumed Cynulliad? OAQ(5)0155(FM)

10. Jenny Rathbone (Canol Caerdydd): Beth yw'r goblygiadau i economi Cymru o ganlyniad i ddatganiad Japan ar y posibilrwydd o golli masnach di-dariff â'r DU yn sgil gadael yr Undeb Ewropeaidd? OAQ(5)0163(FM)

11. Jeremy Miles (Castell-nedd): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y cyflog byw yng Nghymru? OAQ(5)0168(FM)

12. David Melding (Canol De Cymru): Beth yw asesiad Llywodraeth Cymru o'r tai newydd sydd angen eu hadeiladu i ddiwallu'r galw ym marchnad dai Cymru? OAQ(5)0159(FM)

13. Sian Gwenllian (Arfon): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ailstrwythuro gwasanaethau iechyd lleol yng ngogledd Cymru? OAQ(5)0157(FM)**W**

14. Lynne Neagle (Torfaen): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gefnogaeth Llywodraeth Cymru i blant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol? OAQ(5)0167(FM)

15. Paul Davies (Preseli Sir Benfro): A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu'r hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i wella economi Sir Benfro? OAQ(5)0154(FM)

**Datganiad a Chyhoeddiad Busnes**

**Mae agendâu'r Cyfarfod Llawn yn cael eu cyhoeddi wythnos cyn pob cyfarfod, ac maent i'w gweld ar dudalen y Cyfarfod Llawn**
**Dydd Mawrth 4 Hydref a dydd Mercher 5 Hydref 2016**
**Dydd Mawrth 11 Hydref a dydd Mercher 12 Hydref 2016**
**Dydd Mawrth 18 Hydref a dydd Mercher 19 Hydref 2016**

---

**Dydd Mawrth 4 Hydref 2016**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol: Y Diweddaraf ar Ddiwygio Llywodraeth Leol (45 munud)
- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith: Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol i Gymru (45 munud)
- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon: Gwella Gofal i Afiechydon Difrifol (45 munud)
- Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 1998 (Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru) (Diwygio) 2016 (15 munud)
- Dadl: Blaenoriaethau'r Llywodraeth a'r Rhaglen Ddeddfwriaethol (60 munud)

**Dydd Mercher 5 Hydref 2016**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith (45 munud)

- Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig (60 munud)
- Dadl Fer – Huw Irranca-Davies (Ogwr) (30 munud)

**Dydd Mawrth 11 Hydref 2016**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol: Cyllid yr UE (45 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Sgiliau a Gwyddoniaeth: Band Eang Cyflym Iawn yng Nghymru (45 munud)
- Dadl: Mynd i'r Afael â Throseddau Casineb – Cynnydd a Heriau (60 munud)

**Dydd Mercher 12 Hydref 2016**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig (45 munud)
- Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Dadl Fer – Joyce Watson (Canolbarth a Gorllewin Cymru) (30 munud)

**Dydd Mawrth 18 Hydref 2016**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol: Cyllideb Ddrafft 2017-18 (30 munud)
- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig: Y Rhaglen i Ddileu TB Buchol (30 munud)
- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith: Dyfodol Gwasanaethau Bysiau yng Nghymru (30 munud)
- Dadl: Adroddiad Blynyddol 2015-16 Comisiynydd y Gymraeg (60 munud)

**Dydd Mercher 19 Hydref 2016**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad (30 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig (60 munud)
- Dadl Fer – Neil McEvoy (Canol De Cymru) (30 munud)